Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 24 Haf 2013



Llun gan Rachel Stelmach (trwydded CC)

*Yma mae Natur fel y dylai hi fod*
*llawn gorfoledd, moliant a chlod.*

*Annwyl ffrindiau,*

Darllenais yn ddiweddar am weinidog yr Efengyl a ddywedodd ei fod yn credu nad oedd neb yn Gristion onid oedd yn gwneud yr ardd yn ddi-ffael bob blwyddyn. Efallai'n wir mai'r sylw cellweirus hwnnw a'm hysgogodd innau i fynd ati eleni i droi llafn o dir ger y tŷ yn ardd lysiau. Gwyddom yn iawn nad oes dim a all gymharu â phrydferthwch gardd, a honno wedi'i thrin a'i chadw'n dda. Hawdd deall felly pam yr honnodd ambell fardd ei bod hi'n haws dod o hyd i Dduw mewn gardd nag yn unman arall ar y ddaear.

> The kiss of the sun for pardon,
> The song of the birds for mirth, –
> One is nearer God's heart in a garden
> Than anywhere else on earth.

*Dorothy Frances Gurney*

Plannwyd gardd baradwysaidd ar gyfer dyn yn Eden gynt a'r weithred gariadus honno a symbylodd Gwenallt i ganu'r cwpled hyfryd hwn am Dduw'r Creawdwr:

> Ni allai wneud yn well na phlannu gardd
> Er mwyn i ddyn gael byw ynddi'n hardd.

Mae'r ardd ddelfrydol bob amser yn wledd i'r llygad. Ni ellir llai na dotio at y lliw a'r prydferthwch, y persawr a'r ffrwythlonedd, y blodau a'r llysiau amrywiol, a'r cyfan wedi'i gynllunio gan y garddwr medrus. Dyma ddyfynnu Gwenallt eto:

> Yma mae Natur fel y dylai hi fod
> llawn gorfoledd, moliant a chlod.

Wn i ddim a gawsoch chi gyfle i ymweld â gardd Aberglasne, ger Llandeilo, sef yr ardd o'r Oesoedd Canol a fu ar goll mewn amser; ac nid un gardd sydd yn Aberglasne, ond cyfres o erddi wedi'u cynllunio'n ofalus a ffurfiol. Nid yw gardd yn ardd os yw'n gasgliad rhywsut rywsut o welyau blodau a bordenni. I'r gwrthwyneb rhaid iddi gael ei threfnu'n ofalus gan y garddwr medrus. Gŵyr ef yn iawn sut i gael y gorau ohoni ac fe osoda drefn ar y cyfan yn unol â'r patrwm yn ei feddwl. Ac onid un felly yw Duw?

Ond wedi i'r garddwr gynllunio'r ardd yn ôl ei batrwm ei hun, rhaid iddo wedyn fynd ati i droi ei freuddwydion yn realiti. A phan fydd yr ardd o'r diwedd yr hyn y dymuna iddi fod, ni all ei gadael yn llonydd i edrych ar ôl ei hun neu fe dry yn anialwch cyn pen fawr o dro.

Fel y dywedodd cyfaill o arddwr wrthyf un tro, ‘Mae rhywbeth i’w wneud mewn gardd ar hyd yr amser.’ Rhaid ei braenaru’n gyson, ei phalu a’i hofio, ei chwynnu a’i dyfrhau.

Mae’r un peth yn wir mewn cyswllt â’n bywydau ninnau. Mae tyfu mewn sancteiddrwydd yn broses hir ac araf. Rhaid wrth amser ac amynedd. Rhaid wrth gysondeb a dyfalbarhad. Sut mae Duw felly yn llwyddo i gyflawni hynny yn ein bywydau ninnau? Drwy gyfrwng gras, drwy gymdeithas yr Eglwys, drwy brofiadau amrywiol bywyd, drwy ddioddefaint a siomedigaeth, drwy lawenydd a gorfoledd. Efallai y bydd angen tocio o bryd i’w gilydd er mwyn i’r gangen ddwyn ffrwyth. Bydd, mi fydd yn rhaid cydweithio â’r garddwr fel y delo’r nod sydd ynddo ef ‘i’n treiddio a’n bywhau’, chwedl yr emynydd.

Os caiff y garddwr bob chwarae teg, bydd yn siŵr o ddisgwyl canlyniadau da. O’r ardd y bu’n llafurio ynddi’n ofalus y mae’n gobeithio casglu blodau a ffrwythau. Dyna fydd ei wobr fawr. Boed i’n bywydau ninnau felly ddwyn ffrwyth i’r Arglwydd ac ennyn iddo glod ac anrhydedd. Mae ganddo’r hawl i gasglu blodau teg yn ei ardd; a gellir ystyried y blodau fel y rhinweddau hynny sy’n cynrychioli prydferthwch y cymeriad Cristnogol. Mae ganddo hefyd yr hawl i chwilio am ffrwyth gweithredoedd da, ffrwyth bywyd hunanaberthol, a ffrwyth gwasanaeth ymroddedig i anghenion yr hil ddynol.

Peidiwn â’i siomi. Boed i erddi ein bywydau fod yn bersawrus a ffrwythlon yn ei olwg; a chan feddwl mai ef yw y garddwr, gadewch i ni roi iddo’r gogoniant am bob dim a wnaeth ef trosom yn y gorffennol, a hefyd am yr hyn a wna trosom yn awr.

> Gwna fi fel pren planedig, O fy Nuw,
> yn ir ar lan afonydd dyfroedd byw,
> yn gwreiddio ar led, a’i ddail heb wywo mwy,
> yn ffrwytho dan gawodydd dwyfol glwy’.
>
> *Ann Griffiths*

Haf dymunol i chi i gyd – a phob hwyl yn yr ardd!



Yr eiddoch yng Nghrist,
*Wyn Morris* (Bugail)

# Tudalen y Plant


Yn yr haf mae llawer o flodau lliwgar i'w gweld yn yr ardd. Mae'n rhaid gofalu amdanyn nhw a gwneud yn siŵr eu bod yn cael digon o ddŵr i dyfu. Fyddwch chi'n hoffi helpu i wneud hyn?

Mae sôn am flodau yn y Beibl hefyd, a dyma luniau rhai ohonyn nhw. Rhowch yr enw cywir wrth y blodau a'u lliwio.



Ff A R W N S

_ _ _ _ _ _



S O N Y Rh    O N A R S

_ _ _ _ _    _ _ _ _ _



L I I L

_ _ _ _

Mae sôn am sawl gardd yn y Beibl hefyd. Ysgrifennwch enw un ohonynt yma:

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog,
drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul
os dymunwch, erbyn **diwedd Gorffennaf**.

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

**Llongyfarchiadau i
Alaw Evans,
Ysgol Sul Pen-llwyn,
enillydd tasg
y rhifyn diwethaf.**

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth*

| | |
|---|---|
| 30 Mehefin | Gŵyl yr Ysgolion Sul<br>Canolfan y Morlan am 11.15 o'r gloch<br>Thema 'Y Daith' |
| 14 Gorffennaf | Oedfa Haf yr Ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel y Garn am **2 o'r gloch**<br>Bydd cyfeillion o ardal Corwen, dan arweiniad y Parch T Leonard Williams, yn ymuno â ni fel rhan o'u pererindod i'r ardal |
| 20 Gorffennaf | 'O Lan i Lan': Taith Gerdded yr Ofalaeth, dan arweiniad Carys a Dilwyn Jones. Taith 5 milltir o Langelynnin i Lanegryn, Meirionnydd.<br>Cwrdd am 10.30 a.m. yn y gilfan barcio ger Eglwys Llangelynnin. |
| 22 Medi | Oedfa Menter Gobaith am 10 o'r gloch<br>Capel Carmel, Llanilar<br>Croeso cynnes i bawb |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn: www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

## *CIC*

Mae tymor arall yn prysur hedfan heibio, a rhaglen CIC wedi bod yn llawn unwaith eto. Hyd yn hyn rydym wedi mwynhau gemau yng nghwmni ein gilydd yn Festri'r Garn ac yng Nghae Piod. Cawsom noson ddifyr dros ben yn dysgu mwy am hanes ffotograffiaeth ac yn cael cyfle i dynnu lluniau artistig o amgylch Capel y Garn. Yn ogystal, fe aeth llond bws mini ohonom i Ganolfan Awyr Agored Llain i fwynhau'r cwrs dringo a'r *zip-wire*, heb anghofio'r cwrs antur hynod o fwdlyd!

Wrth imi ysgrifennu'r adroddiad hwn, dim ond tair sesiwn sydd gennym ar ôl o'r tymor bellach. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu Gwenno Teifi o'r Bala yma ar yr 20fed o Fehefin. Yna ar y 4ydd o Orffennaf rydym am godi arian at elusen benodol drwy fynd ar daith gerdded gan gychwyn o'r Garn. I gloi'r tymor, fe fydd barbeciw yn cael ei drefnu ar y 18fed o Orffennaf lle byddwn yn gwahodd plant sydd ym mlwyddyn 5 eleni i ymuno. Os hoffech fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r digwyddiadau yma, yna cysylltwch â mi ar 07528 803 029.

*Eleri Barder*
*Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid Gogledd Ceredigion*




***Cyrsiau Awst 2013***

12–15: Anhrefn Awst (8–12 oed)

17–23 Souled Out (oedran 15+)

Am fanylion pellach, ewch i:
www.colegybala.org
neu ebostiwch:
colegybala@ebcpcw.org.uk



Aelodau o Glwb CIC yn mwynhau'r heulwen yng Nghae Piod, dan lygad barcud Eleri



## *Golygydd* Y Goleuad *yn Holi Llywydd Sasiwn y De*

*Llongyfarchiadau, Wyn, ar dy ethol i'r swydd a phob bendith yn ystod y flwyddyn. A gefaist dy fagu yn y ffydd a pha mor bwysig fu'r cefndir hwnnw i ti?*

Diolch am y cyfarchion ac am y cyfle i ymateb i gwestiynau'r Golygydd! Cefais fy magu yn y ffydd ar aelwyd gynnes eglwys Bancycapel, ger Caerfyrddin. Roedd y capel a'r bywyd ysbrydol yn ganolog i'r teulu a pharhaodd hynny ar hyd y blynyddoedd. Cefais fy nerbyn yn aelod cyflawn o'r eglwys pan oeddwn yn bedair ar ddeg oed (mae'r dyddiad ar y Testament Newydd a gyflwynwyd i mi) o dan weinidogaeth rymus y Parchedig James Humphreys. Bu'r diweddar Barchedig J Howell Evans hefyd yn fawr ei ddylanwad arnaf.

*Fe wyddom dy fod wedi bod yn athro ysgol am rai blynyddoedd, ond beth neu pwy a'th arweiniodd i'r weinidogaeth?*

Roedd cyflwyno fy hun i'r weinidogaeth yn gam naturiol i'w gymryd gan fy mod ers rhai blynyddoedd wedi bod yn flaenor yn yr eglwys ym Mancycapel ac yn bregethwr lleyg yn Henaduriaeth De Myrddin. Er hynnny roeddwn yn mwynhau gweithio fel athro a chefais fudd yn ddiweddarach o gyflawni swydd Cynorthwyydd Proffesiynol yn Adran Addysg y Cyngor Sir. Rwyf yn argyhoeddedig na allwn fod wedi cyflawni'r 'barchus, arswydus swydd' yn nyddiau fy ieuenctid. Ond gyda chefnogaeth fy ngwraig, Judith, penderfynais yn 1996 y byddai'n rhaid i mi ymateb i'r alwad o ddifri. Gwn fod y profiadau amrywiol a gefais fel addysgwr a gweinyddwr yn gaffaeliad mawr i mi yn y weinidogaeth erbyn hyn.

*Ai fel athro neu fel pregethwr y gweli dy bwyslais mwyaf yn y weinidogaeth?*

Yn sicr, fel athro. Erbyn heddiw un o gyfrifoldebau mawr yr eglwys yw ceisio adeiladu'r aelodau yn y Ffydd. Rwyf wrth fy modd yn arwain y Dosbarth Beiblaidd a gynhelir yn wythnosol yn fy ngofalaeth, ac yn teimlo bod y cyfle i drafod a cheisio dirnad beth y mae gan Air Duw i'w ddweud wrthym heddiw yn hollbwysig. Er hynny, byddaf yn cael blas mawr ar bregethu'r Gair hefyd.

*O safbwynt rhoi arweiniad, a yw bod yn Llywydd Henaduriaeth bellach cyn bwysiced, os nad pwysicach, na bod yn Llywydd Sasiwn?*

Mae'r ddwy swydd cyn bwysiced â'i gilydd. Priod waith pob arweinydd yw herio ac ysbrydoli. Rai blynyddoedd yn ôl, cefais fy ethol yn Ysgrifennydd ac yna'n Llywydd Henaduriaeth Gogledd Myrddin. Tra'n cyflawni fy nyletswyddau sylweddolais fel y gall eglwysi, yn arbennig yr eglwysi bychain di-fugail, deimlo'n ynysig iawn ar brydiau a bod angen sicrwydd a gofal arnynt.



***Cymdeithasfa'r De, Llanddarog, 1–2 Mai***

Yn y trydydd eisteddiad, sef Oedfa'r Llywydd, cymerwyd y defosiwn gan y darpar lywydd newydd, yr Athro John Gwynfor Jones, Caerdydd. Yn ei araith ymadawol pwysleisiodd y Llywydd y 'pwysigrwydd i'r Eglwys ymestyn allan i bawb ac i bob cyfeiriad'. Arwisgwyd y Parchedig Wyn Morris fel ein Llywydd newydd. Arweiniwyd mewn gweddi gan Mr Glyn T. Jones a diolchwyd yn gynnes iawn i Dafydd Andrew Jones am lywyddiaeth raenus a doeth gan y Parchedig Roger Ellis Humphreys.

Fel Llywydd Sasiwn fy nghyfrifoldeb fydd annog aelodau'r eglwysi i ymroi i weithio dros yr Efengyl yn y mannau lle maent gan wneud 'y pethau bychain', ond pethau sy'n aruthrol fawr yng ngolwg Duw.

*Bu cyfres yn* Y Goleuad *dan y teitl 'Fy nghalonogi … fy mhoeni': beth sydd yn dy galonogi di a'th boeni di ynglŷn â bywyd yr eglwysi ar ddechrau dy lywyddiaeth?*

Yn sicr yr hyn sydd yn fy nghalonogi fwyaf heddiw yw ymrwymiad y gweddill ffyddlon, a'u parodrwydd i ddal ati er gwaethaf y cilio a'r difaterwch. Mae llawer o bethau yn fy mhoeni, a diau mai'r mwyaf ohonynt yw'r diffyg ymateb i neges yr Efengyl yn gyffredinol a'r ffaith nad yw'r Eglwys fel sefydliad yn denu yr ifainc a'r canol oed. Wrth gwrs mater arall yw ceisio dod o hyd i ffyrdd o gyfathrebu'r neges a fydd yn apelio at drwch yr aelodau.

*Llawer iawn o ddiolch, Wyn.*

(*Cyhoeddwyd gyda chaniatâd caredig y Parch. Pryderi Llwyd Jones, Golygydd* Y Goleuad)

Amheuthun yw clywed am berson ifanc yn dymuno profi galwad Duw i'r weinidogaeth fugeiliol. Ond yn ddiweddar daeth cais o du'r Cyfundeb ar i'r Parchedig Eifion Roberts, Capel y Morfa, a minnau estyn gwahoddiad i Sioned Angharad Williams, merch ifanc 21 mlwydd oed o Fethesda yng Ngwynedd, i ddod atom i fod yn rhan o fywyd a gweithgarwch ein heglwysi am flwyddyn gyfan o ddechrau mis Medi ymlaen. Yn naturiol, roedd Eifion a minnau wrth ein boddau o glywed y newyddion. Mi fyddwch chithau hefyd ac edrychwn ymlaen i gyfarfod Sioned a'i chroesawu atom. Dyma'r hyn a ysgrifennodd Sioned amdani'i hun:



Helô,
Sioned ydw i ac rwyf yn 21. Cefais fy addysg gynradd yn Ysgol Abercaseg ac yna Ysgol Pen y Bryn, a ches fy addysg uwchradd yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Es ymlaen wedyn i dderbyn fy addysg bellach ym Mhrifysgol Bangor yn gwneud gradd mewn Cymraeg a chymysgedd o Addysg Grefyddol a Diwinyddiaeth. Rwyf yn hoff iawn o ddarllen ac ysgrifennu creadigol yn ogystal â gwneud cardiau achlysurol.

Rwyf wedi bod yn athrawes ysgol Sul yng Nghapel Jerusalem, Bethesda, ers pan oeddwn yn 13, yn gweithio yn bennaf gyda phlant 1–5 oed ac yn cael mwynhad mawr o'r gwaith hwn. Gobeithiaf yn ystod fy mlwyddyn yn Aberystwyth brofi galwad Duw arnaf a gweld ai i'r weinidogaeth y mae Duw yn fy ngalw mewn bywyd. Yn ogystal â hynny gobeithiaf gael ystod eang o brofiadau fydd o help i mi yn fy mywyd ysbrydol. Wnes i ddim ystyried gyrfa mewn perthynas â'r Eglwys pan oeddwn i'n ifanc a nes i mi wneud fy Lefel A roeddwn yn benderfynol fy mod yn mynd i fod yn ddeintydd. Ond fel yr es ymlaen yn fy Lefel A daeth yn amlwg nad gyrfa mewn deintyddiaeth oedd fy ngalwad a bod Duw yn fy ngalw i wneud rhyw fath o waith o fewn ei Eglwys. Credaf y bydd y flwyddyn yn brofiad gwerthfawr tu hwnt ac edrychaf ymlaen i gychwyn ar y gwaith ym mis Medi.

## Gorffennaf

*Blaenor y Mis: Eddie T Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian B Hughes*

**7** Parch R W Jones

**14** Oedfa haf yr ofalaeth dan arweiniad y Bugail
Capel y Garn am **2 o'r gloch**
Bydd cyfeillion o ardal Corwen, dan arweiniad y Parch T Leonard Williams yn ymuno â ni fel rhan o'u pererindod i'r ardal

18 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch

**21** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore

**28** Miss Beti Griffiths

## Awst

*Blaenor y Mis: Marian B Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

**4** Y Parch Richard H. Lewis
Oedfa'r bore yn unig am 10 yng Nghapel Noddfa

**11** Y Parch Lewis Wyn Daniel
Oedfa'r bore am 10 yn unig

**18** Y Parch Richard H Lewis – oedfa gymun
Oedfa'r bore yn unig am 10 yng Nghapel Noddfa

**25** Dr Rhidian Griffiths
Oedfa'r bore am 10 yn unig

Llongyfarchiadau calonnog:

i Meleri, Rhydyrysgaw, gynt, ar ei phenodiad yn Bennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

i Carwyn a Lyndsey ar enedigaeth merch fach, Maddison Leigh, ar 28 Ebrill, chwaer fach i Jordan a Benjamin, ac wyres i Lis Lloyd Jones

i Vernon a Dilys ar eu llwyddiannau yn Eisteddfod Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid, a hefyd ar eu cyfraniadau i'r gyfrol *Mil a Mwy o Emynau* (gol. Edwin C Lewis)

i Llio ar ei llwyddiant gyda chôr gwerin a chôr cerdd dant Ysgol Bro Ddyfi yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sir Benfro

i Rhodri ar ei benodiad yn Ddirprwy Is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth.

Croeso cynnes i John Rees, Dolau, atom fel aelod yn y Garn. Rydym eisoes wedi cael ei gwmni yn yr oedfaon, a gobeithiwn y byddwch yn cael bendith yn ein plith.

***Cludiant***

Os ydych angen cludiant i fynd i'r oedfa yng Nghapel Carmel, Llanilar – neu i unrhyw oedfa arall – cysylltwch ag un o'r swyddogion. Byddwn yn barod iawn i wneud trefniadau ar eich cyfer.

# Medi

*Blaenor y Mis: D Bryn Lloyd*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie T Jenkins*

**1** Parch Goronwy Prys Owen

**8** Parch J E Wynne Davies
Yr ysgol Sul yn ailddechrau

**15** Parch W J Edwards

**22** Oedfa Menter Gobaith
Capel Carmel, Llanilar, am 10 o’r gloch

Oedfa gymun yng Nghapel y Garn am 5 o’r gloch
dan arweiniad y Bugail

**29** Parch Parch Roger Ellis Humphreys

***Gweddi***

Arglwydd,
teimlwn yn annigonol ar gyfer y gwaith
a baratoist ar ein cyfer.
Yr ydym yn ymwybodol o’n diffyg ffydd
ac o gyfyngiadau ein doniau.
Ond ar hyd y canrifoedd yr wyt ti
wedi defnyddio’r mwyaf annhebyg
i hyrwyddo gwaith dy deyrnas.
Yr wyt wedi troi amheuaeth yn ffydd,
gwendid yn nerth.
Rho i ninnau ffydd, felly, i ymateb i’th alwad,
gan gredu fod ein digonedd ni ynot ti,
er gogoniant dy enw.

(*Does Debyg Iddo Fe 2*, Nick Fawcett, addas. Olaf Davies, t. 236)

## *Capel y Garn – Y Ffordd Ymlaen*

Fel Swyddogion, rydym yn gwerthfawrogi'r ymateb a gafwyd i'r cwrdd eglwys a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2013. Cafwyd llu o awgrymiadau gwerthfawr yn ymwneud â gwahanol agweddau ar waith yr eglwys yn ystod y cyfarfod, yn ysgrifenedig a thrwy'r blwch awgrymiadau. Calondid arbennig oedd y gefnogaeth a'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd yn y cyfarfod pellach a gynhaliwyd nos Lun, 20 Mai.


O ganlyniad penderfynwyd y byddwn fel eglwys yn mynd ati i sefydlu Pwyllgor Eglwys a fydd yn hyrwyddo gwaith yr eglwys yn yr ystyr ehangaf, yn ogystal â datblygu cyfraniad yr eglwys a'i gweinyddiaeth i'r dyfodol. Aelodaeth y Pwyllgor Eglwys fydd y swyddogion presennol ynghyd ag un cynrychiolydd yr un o blith: Pwyllgor yr Ysgol Sul; Pwyllgor y Chwiorydd a'r Grŵp Help Llaw; Pwyllgor y Gymdeithas Lenyddol, yn ogystal â nifer o unigolion eraill a fydd yn cael eu henwebu / cyfethol i weithredu ar y pwyllgor gan y pwyllgor craidd gwreiddiol.

Edrychwn ymlaen, gyda'ch cydweithrediad, at gyfnod cyffrous ac adeiladol fel cymuned Eglwys y Garn wrth fanteisio ar y cyfle i wneud ein rhan i ddiogelu ac ymestyn tystiolaeth Achos Crist yn yr ardal hon i'r dyfodol.

*Y Swyddogion*

Casgliad cynhwysfawr o 1,000 o emynau nad ydynt yn *Caneuon Ffydd*, gan gynnwys hen emynau a rhai a gyfansoddwyd yn ddiweddar at achlysuron arbennig.

Cyhoeddir gan Gyhoeddiadau'r Gair; pris £17.99



## *Pen-llwyn*

Fore Sul, Mai 5ed, cynhaliwyd gwasanaeth teuluol yng Nghapel Pen-llwyn am y tro cyntaf – arfer y gobeithiwn a fydd yn ennill ei blwyf ac yn dod yn ddigwyddiad rheolaidd yn y capel. Braf oedd gweld nifer o deuluoedd ifanc yn mynychu'r oedfa, yn famau, tadau, brodyr a chwiorydd i blant yr ysgol Sul. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan y plant, cyn iddynt fynd i'r festri i ymgymryd â gweithgareddau yn ymwneud â thema'r oedfa sef 'Y Ddafad Golledig'. Anerchodd y gweinidog y plant, gan ddangos sleidiau PowerPoint i ategu ei neges ac i bwysleisio awydd ac ymdrech y bugail yn y ddameg i ddod o hyd i'r un ddafad golledig, gan adael y 99 er mwyn dod o hyd iddi. Wedi i'r plant fynd i'r festri, anerchwyd gweddill y gynulleidfa gan y gweinidog, y Parch Wyn Morris. Roedd ei neges yn neges bwrpasol, yn barhad naturiol o stori'r plant, gan ein hatgoffa o awydd Iesu Grist fel y Bugail Da i fynd ar ein hôl ac i ofalu'n dyner amdanom. Roedd y neges yn her i bob un ohonom wrth i ni gael ein hatgoffa o wir neges yr Efengyl a'r ffordd y mae'r neges honno yn peri i ni orfod holi ein hunain am ein hymateb i alwad y Bugail Da. Dychwelodd y plant i'r capel ar ddiwedd y gwasanaeth, gan ddangos i ni y gwaith yr oeddent wedi ei gyflawni am y ddafad golledig ac roedd pob un yn awyddus i ddangos ffrwyth ei lafur i'r gweinidog ac i'r gynulleidfa. Crynhowyd holl neges y gwasanaeth yn un o'r emynau a ganwyd yn ystod y gwasanaeth:

> Y Bugail mwyn o'r nef a ddaeth i lawr,
> I geisio'i braidd trwy'r erchyll anial mawr:
> Ei fywyd roes yn aberth yn eu lle,
> A'u crwydrad hwy ddialwyd arno Fe.

Ein gweddi yw y bydd y neges hon yn aros yn fyw yn ein cof ni i gyd ac y bydd yn ein cymell ni i gyd i geisio'r Arglwydd yn gyson. Gweddïwn y bydd oedfaon o'r fath yn dod yn rhan rheolaidd o'n bywyd fel eglwys, ac y gwelwn deuluoedd cyfain yn presenoli eu hunain yn gyson yn y gwasanaethau.

## *Cymanfa Ganu*

Daeth Cymanfa Ganu Rheidol ac Ystwyth i ben ers nifer o flynyddoedd bellach, felly nid oedd Cymanfa Ganu yn rhywbeth cyfarwydd i blant yr ysgol Sul. Ond eleni, daeth tro ar fyd, gan ein bod bellach yn rhan o Gymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion. Yn y gymanfa ganu honno a gynhaliwyd yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, cafwyd cyfraniad gan Alaw a Llŷr Evans, Haf Evans, Tomos Watson a Ffion Williams o Ysgol Sul Pen-llwyn yng nghyfarfod y plant fore dydd Sul, 12fed Mai.

## Newyddion Seion

Brynhawn Sadwrn, 13 Ebrill, yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Chwiorydd Dosbarth Gogledd Ceredigion. Daeth cynulleidfa deilwng ynghyd i ddiolch am waith y Genhadaeth gartref a thramor, ac i ddathlu'r gwaith hwnnw. Y gennad gwadd oedd Mrs Sarah Morris, Caerdydd, yn sôn am Raglen Dorcas, sef rhaglen o weithgareddau a syniadau amrywiol iawn ar gyfer hybu gwaith cenhadol y chwiorydd yn y gwahanol eglwysi. Cafwyd ganddi gyflwyniad bywiog a chynhwysfawr iawn, yn elwa o'i phrofiad yn paratoi deunyddiau fel Swyddog Dorcas dros Dde Cymru.

Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan Beti Wyn, Myfanwy a Gwen o Rehoboth, Taliesin, a chan Olwen a Magdalen o Seion. Llywyddwyd gan Ina Tudno Williams a diolchodd i bawb am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Mrs Brenda Parry Owen, Llanilar, ysgrifenyddes y pwyllgor. Mrs Mary Jones Morris oedd wrth yr organ. Estynnwyd gwahoddiad i bawb i gymdeithasu dros de yn y festri wedi ei baratoi ar y cyd gan chwiorydd Rehoboth a Seion.

**Mae'n bwysig cyhoeddi bod Sarah Morris yn barod i ddod i oedfa neu gyfarfod chwiorydd – ffurfiol neu anffurfiol – i sôn am raglen Dorcas ac i gefnogi unrhyw weithgarwch. Gellir cysylltu â hi drwy'r swyddfa ganolog yng Nghaerdydd neu trwy ebost – rhaglendorcas.com.**

### *Diolch*

Dymuna Alan, Ann, Ceri a Gethin ddiolch am bob arwydd
o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt
yn eu profedigaeth o golli Rhodri.



Gwasanaeth bedydd Emma Morgan James,
merch fach Gwyn ac Yvonne James, Moelcerni, y Borth,
yng Nghapel Babell, Dôl-y-bont, brynhawn Sul, 26 Mai

***Taith Gerdded yr Ofalaeth – 20 Gorffennaf***

***'O Lan i Lan': o Langelynnin i Lanegryn, Meirionnydd***

**dan arweiniad Carys a Dilwyn Jones**


Cwrdd am 10.30 a.m. yn y gilfan barcio ger Eglwys Llangelynnin, lle gellir gadael y ceir. Bydd y daith yn cychwyn ac yn gorffen yno. Taith 5 milltir o hyd; bydd ychydig o ddringo ar y dechrau, ond mae'r daith yn weddol wastad ar y cyfan. Croeso i bawb!

**Sul y Pentecost yn y Garn**

Roedd Sul y Pentecost eleni hefyd yn Sul Cymorth Cristnogol. Ar y diwrnod hwnnw, sef Mai'r 19eg, cynhaliwyd oedfa Cymorth Crisnogol yn y Garn dan arweiniad y Bugail, y Parch Wyn Morris. Cafwyd gwasanaeth priodol i'r plant wedi'i seilio ar ffilm a baratowyd gan Gymorth Cristnogol, a dilynwyd hynny gan anerchiad i'r oedolion. Ar ddiwedd yr oedfa dychwelodd y plant o'r Ysgol Sul i ddangos y gwaith roedden nhw wedi'i wneud i'r gynulleidfa. Wedi hynny roedd pryd plaen o fara menyn a chaws wedi ei baratoi gan y chwiorydd yn y festri i gyfeirio'n meddyliau at y prinder, ac yn wir y newyn, sydd mewn rhai rhannau o'r byd. Daeth nifer fwy nag arfer i rannu yn y bwyd. Gwnaed casgliad at Gymorth Cristnogol yn y gwasanaeth ac yn ystod y bwyd.







PYRAMID GRŴP BW
Cynyrch llaeth
llysiau
braster

## *Emyn a Thôn*

Gan fy mod ers blynyddoedd yn hoffi cyfeirio at ganmlwyddiannau ein cymwynaswyr rwy'n falch fod Cylchlythyr Cymdeithas Emynau Cymru yn enwi 14 o emynwyr a chyfansoddwyr y dylem eu cofio yn 2013. Un o'r rheiny yw'r cerddor D. Emlyn Evans, a faged ym Mhenrallt-wen, Drewen, Castellnewydd Emlyn, a fu farw gan mlynedd i 19 Ebrill yn 70 oed. Fe gofir amdano fel cerddor amryddawn, cyfansoddwr tonau a gweithiau cysegredig eraill, a beirniad a golygydd. Bu ynglŷn â chylchgrawn *Y Cerddor* o 1880 hyd ei farw a gweithredodd ar bwyllgorau cerdd o leiaf bedwar llyfr emynau. Oherwydd ei gred mai dim ond y gorau y dylem ei ddefnyddio i foli'r Arglwydd bu'n gyson feirniadol o emynau a thonau annheilwng (yn ei farn ef) a ddefnyddir wrth addoli.

Mae'n dda fod chwe thôn ac un trefniant o'i gynnyrch wedi'u cynnwys yn *Caneuon Ffydd*, un ohonynt o'r enw 'Glanceri' i gofio'i fod wedi'i fagu ar lannau afon Ceri. Dwy dôn arall a genir amlaf erbyn hyn: 'Eirinwg' (172) ar eiriau Elfed, 'Yr Arglwydd a feddwl amdanaf'; a 'Trewen' (462) – enw'r capel lle y'i maged, ar eiriau Thomas Jones o Ddinbych, 'Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw'. Os ewch chi at ei fedd ym mynwent Eglwys Llandyfriog ger ei hen gartref, fel y gwneuthum bythefnos yn ôl, fe sylwch fod llinellau cyntaf yr emyn a'r dôn wedi'u cerfio ar y garreg o dan ei enw. Ni welais hynny ar unrhyw garreg fedd arall.

Ym 1919 lluniodd brawd iau Emlyn, y Parchedig E. Keri Evans (1860–1941), y gweinidog a'r athronydd disglair, ac un o'm rhagflaenwyr yng Nghapel y Priordy, Caerfyrddin, gofiant diddorol iddo. Mae Keri a'i deulu wedi'u claddu yn y bedd agosaf at Emlyn ac mae'n dda cofio ei fod yn emynydd a chyfieithydd emynau gyda'r gorau a gafwyd. Barn y beirniaid yw fod ei drosiad campus o emyn enwog y Cardinal John Henry Newman, 'Lead, kindly Light', yn rhagori ar fersiwn Syr John Morris-Jones. Trowch ato yn *Caneuon Ffydd* dan rif 773, at ei Emyn Cymundeb, rhif 667, cyfieithiad o emyn George Rawson (1807–89); ac at rif 860, trosiad eto, o emyn Ebenezer Elliott (1781–1849).

Byddai'n dda inni drefnu pererindod at feini coffa'r ddau frawd cyfoethog eu cyfraniad, nid nepell o'u cartref. Pan oeddwn i yno yn ddiweddar roedd torch o flodau wedi'i gosod ar fedd Emlyn a'r geiriau yma ar gerdyn, 'I gofio D. Emlyn Evans, Penrallt-wen, fu farw gan mlynedd yn ôl ar 19 Ebrill 1913. Diolch am ei gyfraniad i Ganiadaeth y Cysegr yng Nghymru – 'Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw'. A diolch fod Delyth G. Morgans Phillips, ysgrifennydd diwyd y Gymdeithas Emynau, wedi trafod 'D. Emlyn Evans a'i weithgarwch', yn ysgol undydd y Gymdeithas ganol Mai.


*W. J. Edwards*

## Cymdeithas y Chwiorydd, Capel Rehoboth

Cyfarfu’r aelodau yn festri Rehoboth, Taliesin, brynhawn Mawrth, 12 Mawrth, a chroesawyd Iestyn Hughes, Bow St, a ddaeth atom ar fyr rybudd. Erbyn hyn mae wedi ymddeol o’i waith yn y Llyfrgell Genedlaethol lle y creodd Archif Sgrin a Sain Cymru. Ers ymddeol bu’n brysur yn darganfod a thynnu lluniau ar gyfer gweisg a chylchgronau ac ar gyfer llyfr ar ddaearyddiaeth Cymru. Mae hefyd wedi cynhyrchu cyfres o gardiau cyfarch ‘cardiau sy’n cyfrif’. Testun ei sgwrs oedd ‘Taith y Lens’ a dangosodd luniau ardderchog a dynnwyd ganddo bob mis yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth iddo deithio o ardal i ardal, a hefyd cawsom y stori tu ôl i’r llun. Diolchwyd iddo am brynhawn difyr ac addysgiadol gan Eirlys Jones. Non Griffiths, Daphne Farthing ac Eirlys Jones oedd yng ngofal y te.

Aethpwyd ar daith i’r gogledd ar brynhawn Mawrth, 9 Ebrill, i ymweld â Ffrwd-y-gwyllt, cartref Bethan Gwanas yn Rhyd-y-main. Cafwyd croeso cynnes gan Bethan a phawb yn mwynhau ei chwmni wrth iddi ein tywys o amgylch ei gardd ar brynhawn mor braf. Mwynhawyd te yng Nghaffi TH yn Nolgellau cyn troi am adref.

Diolch i Myfanwy Rowlands a Mai Leeding am lywyddu a threfnu’r cyfarfodydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf; Eiriona Metcalfe a Carys Briddon fydd yng ngofal y trefniadau yn ystod y tymor nesaf.




Cyfrol gynhwysfawr o ddywediadau yn cwmpasu 2,000 o flynyddoedd – o’r Beibl hyd at y cyfnod presennol. Ceir yma anerchiadau ac areithiau, dywediadau bachog o bob rhan o’r byd, gan ddiwinyddion a diwygwyr, emynwyr ac awduron, gan gynnwys detholiad da o Gymru.

Cyhoeddir gan Gyhoeddiadau’r Gair; pris £11.99


SAMUEL


Murgiverde


## *Grŵp Help Llaw*

Bu festri Capel y Garn ar agor bore Sadwrn, 8 Mehefin, i dderbyn rhoddion o fwydydd tuag at Fanc Bwyd Stordy'r Jiwbilî. Eglwys St Anne, Penparcau, sy'n gyfrifol am drefnu'r Banc Bwyd ac mae'n darparu bwyd i bobl leol mewn argyfwng.

Cafwyd ymateb gwych i'r apêl ac rydym yn ddiolchgar iawn am gyfraniadau arbennig o hael. Diolch i bawb fu'n helpu mewn sawl dull a modd i sicrhau bore llwyddiannus iawn. Rydym yn hynod o ddyledus i Alan Wynne a Bryn Lloyd am lwytho a dadlwytho'r cyfan ar ddiwedd y bore, ac i Weinidog ac aelodau Capel Noddfa am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau.



## *Byw’r Cwestiynau*




Yng nghynhadledd flynyddol Cristnogaeth21 a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth, ddydd Sadwrn, 8 Mehefin, lansiwyd y gyfrol *Byw’r Cwestiynau*. Dyma gyhoeddiad papur cyntaf Cristnogaeth 21, sef addasiad Cymraeg gan Vivian Jones o’r gyfrol *Living the Questions*. Ynddi ceir deuddeg astudiaeth ar gyfer unigolion neu grwpiau sy’n chwilio am arweiniad i Gristnogaeth fodern. Mae’r cynnwys yn amrywio o ‘Meddwl am Dduw’, i ‘Adfer Perthynas’, a ‘Tosturi’r Iesu’ ac mae nifer dda o gwestiynau i’w hystyried.

Mae Cristnogaeth21 yn fforwm i roi llais i ystod eang o safbwyntiau diwinyddol Cristnogol ac yn credu bod y Gymru Gymraeg wedi dioddef yn ystod y blynyddoedd diweddar o ddiffyg trafodaeth eang ar natur Cristnogaeth yn ein dyddiau ni.

Terfynwyd y gynhadledd gydag anogaeth fywiog am i ni fod yn gynhwysol, gynnes, agored a chariadus – mewn geiriau eraill, i fyw’n Gristnogol.

Mae copïau o *Byw’r Cwestiynau* ar gael gan Marian, pris £5.

Am ragor o wybodaeth am Cristnogaeth21, ewch i’r wefan: www.cristnogaeth21.org

**_Swyddogion yr Ofalaeth_**
*Cadeirydd*: Owen Jenkins, Gwedd Ynys, Taliesin
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **8 Medi:**

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
☏01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
☏01970 828662
marian_hughes@btinternet.com